# DAVIES, OLIVER (fl. tua 1820), telynor

**Enw:** Oliver Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** telynor
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn Nhrefaldwyn. Efe oedd prif delynor eisteddfod Trallwng yn 1824, ac eisteddfod Cymmrodorion Llundain, 6 Mai 1829, pan synnwyd at ei fedrusrwydd i ganu y delyn bedawl. Yr oedd hefyd yn yr eisteddfod a gynhaliwyd yn Llundain, 1831. Cyfeirir ato gan ' Bardd Alaw ' yn ei ysgrif ar y ' Cambrian Pedal Harp ' a geir yn *Y Cymmrodor*, i, fel hyn: 'This harp will be introduced at the anniversary meeting of the Royal Cambrian Institution, on the 22 May next (1822), and played by a young musician of the name of Davies, who promises to become a first rate performer.'

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734025


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu